Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bontnewydd

**Yr Hen Ysgol**
**Bontnewydd**
**Caernarfon**
**LL55 2UF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bontnewydd

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Bontnewydd |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Carol Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | |
| Person â gofal | Donna Owen |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner - 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 19 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun - Dydd Iau : 8.30-10.30 / 11.00 - 14.50<br><br>Dydd Gwener : 8.30 -10.30 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu "Cynnig Gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15/10/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Chwefror 2014 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/06/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach gyfleoedd i blant ddysgu mwy am fywydau a chredoau pobl eraill

A2 Sicrhau bod dodrefn priodol ar gael i blant adeg byrbryd a chinio

A3 Sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cyd-fynd â'r polisïau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan y plant lais cryf iawn o fewn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn cael cyfle i fynegi barn am sut i ddatblygu'r ardal tu allan trwy dorri lluniau allan o gatalog o'u hoff adnoddau a theganau. Mae bron bob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn dda iawn a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau aeddfed am eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, maent yn mwynhau dewis chwarae tu allan gan fynd ati i lenwi'r can dyfrio yn synhwyrol gyda dŵr o'r cynhwysydd, gan droi'r tap yn hyderus, cyn mynd ati i ddyfrio.

Mae bron bob un o'r plant yn teimlo'n hollol gartrefol yn y cylch ac wrth eu bodd yn mynychu. Maent yn cyrraedd yn hollol gyffrous ac yn sgwrsio'n fyrlymus â'r ymarferwyr am eu hanturiaethau. Er enghraifft, maent yn gyffrous iawn wrth drafod ymweliad nain a thaid ac wrth drafod bwydydd y maent wedi eu bwyta dros y penwythnos. Mae rhai hyd yn oed yn gofyn i'w rhieni am gael mynychu dros y penwythnos neu yn ystod y gwyliau.

Mae bron bob un o'r plant yn ffurfio perthynas dda â'r ymarferwyr a'u cyfoedion. Maent yn ofalgar iawn at ei gilydd, yn rhannu'n arbennig o dda ac yn parchu ei gilydd. Er enghraifft, wrth ddefnyddio cyfrifiadur llechen i ffurfio llythrennau ar raglen addysgol, maent yn canmol ei gilydd am ffurfio geiriau'n gywir gan ddweud 'waw'. Mae'r plant yn hunangofrestru bob dydd ac mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau ac yn ffurfio llythrennau yn yr awyr, yn mynd dros lythrennau ar gyfrifiadur lechen, yn dechrau ffurfio llythrennau ar bapur ac yn gallu dweud pa lythrennau sydd yn eu henwau. Maent yn gwrando'n astud ar ymarferwyr ac yn sgwrsio'n ymestynnol â nhw a'u ffrindiau yn y Gymraeg. Er enghraifft, wrth i blentyn ateb cwestiwn am ba liw hufen iâ gafodd yn ddiweddar, dywedodd 'pinc efo mefus ar y top'.

Mae bron bob un o'r plant yn hynod annibynnol ac yn hyderus wrth ymdrin ag offer. Maent yn rheoli risgiau eu hunain, er enghraifft wrth gerdded ar y cerrig mawr. Yn ogystal, maent yn dyfalbarhau'n aeddfed am gyfnodau estynedig. Ceir enghraifft o hyn wrth i blentyn ganolbwyntio'n ofalus i afael yn nhroellwr y tâp mesur a'i droi'n gelfydd yn ôl i mewn i'r blwch. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros helpu i lanhau ac am eu hylendid personol. Er enghraifft, maent yn ôl hances yn annibynnol i sychu trwyn a'i daflu i'r bin yn syth, o dan gyfarwyddyd. Mae bron bob un o'r plant yn bwyta bwyd yn annibynnol, yn agor blychau bwyd ac yn tywallt dŵr neu lefrith yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn golchi a sychu eu dwylo yn hollol annibynnol cyn bwyta eu cinio a'u byrbryd.

Mae bron pob un o'r plant yn rhannu a chymryd tro yn dda ac yn rheoli emosiynau yn dda. Mae rhan fwyaf o'r plant yn dechrau ystyried teimladau eraill yn dda, er enghraifft rhoi llaw i blentyn arall i groesi ar y trawstiau pren. Mae bron pob un o'r plant yn dechrau deall pwysigrwydd gofalu am eu byd drwy dyfu amrywiaeth o flodau, ffrwyth a llysiau yn yr ardal allanol gan eu dyfrhau yn ddyddiol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn enwedig mewn medrau llafar, datrys problemau a rhifedd. Yn ogystal, mae bron bob un yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau corfforol. Maent yn dangos gwydnwch ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae, er enghraifft wrth arbrofi â photeli chwistrellu dŵr i gael hwyaden i arnofio er mwyn cyrraedd y bwced.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau, yn hoffi gwrando'n astud ar stori ac yn ymateb yn bwrpasol i gwestiynau gan ddwyn i gof ddarnau o'r testun yn llwyddiannus. Maent yn mynegi eu hunain yn dda gan ddefnyddio ystod o eirfa a brawddegau llawn, er enghraifft wrth drafod sut roedd y mefus yn cochi gan fod yr haul allan. Mae bron bob un o'r plant yn adnabod eu henwau mewn print tra'n hunangofrestru. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer marcio mawr a bach yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu wynebau yn yr ardal tu fewn a thu allan. Maent yn dechrau adnabod pwrpas ysgrifennu mewn gwahanol gyd-destunau yn briodol, er enghraifft wrth greu apwyntiadau yn y feddygfa.

Mae bron bob un o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn amrywiaeth o gyd-destunau dysgu a chwarae. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd ac yn hyderus wrth arbrofi a datrys problemau yn ymwneud â siâp, maint a phatrwm. Mae bron bob un o'r plant yn cyfrif gwrthrychau yn hyderus hyd at bump, gyda llawer yn cyfrif i ddeg, er enghraifft wrth gyfri sawl gwaith roedd y bêl yn bownsio yn yr ardal allanol a nifer y clychau oedd wedi'u cuddio yn y twba tywod. Mae tua hanner y plant yn dechrau adnabod rhifau yn dda, er enghraifft wrth drafod rhifau ar grys-t plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau datrys problemau yn llwyddiannus ac yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol, er enghraifft wrth ddewis yr offer cywir i symud y tywod o'r bag enfawr i'r whilber. Mae bron bob un o'r plant yn defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn annibynnol i gyfoethogi'u chwarae a'u dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio "walkie talkie" i gyfathrebu â ffrind.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda drwy beintio dwylo i brintio ar y papur ar yr astell, a chreu cerddoriaeth trwy ddefnyddio clychau tu fewn a thu allan gan ddawnsio i'r sŵn. Yn ogystal, maent yn creu gwahanol fathau o fodelau gan ddefnyddio toes, sydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau modur mân. Maent yn ymfalchïo wrth weld eu lluniau'n cael eu harddangos yn yr oriel. Mae bron bob un o'r plant yn dangos mwynhad wrth ganu caneuon cyfarwydd a thraddodiadol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae bron bob un o'r plant yn arddangos medrau corfforol cryf. Maent yn cicio, taflu a dal peli o wahanol faint a tharo peli gyda bat tenis yn llwyddiannus. Mae bron bob un o'r plant yn arddangos medrau cydsymud cryf, er enghraifft drwy gerdded ar hyd y trawstiau pren a chamu dros y cerrig mawr yn yr ardd. Maent yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn dda, er enghraifft wrth iddynt droelli'r lifer i gael y tâp mesur 'nôl i'w le.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n barhaus ar gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau'n dda iawn ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol er mwyn cadw’r plant yn ddiogel. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd cyfredol gan bob un ohonynt. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau. Maent yn annog y plant i ddod â byrbrydau iach a maethlon, sy’n cynnwys ffrwythau ffres ac yn cynnig llaeth a dŵr i yfed. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn arferion dyddiol y plant. Maent yn cefnogi anghenion meddygol plant yn effeithiol iawn. Mae’r holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn neu ymarferydd. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl effeithiol iawn ac yn modelu defnydd iaith ac ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad y plant. Maent yn deall y polisi ymddygiad cadarnhaol yn dda iawn ac yn ei weithredu'n hynod effeithiol. Mae’r holl ymarferwyr yn rhyngweithio'n wych â'r plant o'r funud y maent yn cyrraedd hyd nes iddynt adael, gan fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r dechneg cyd-feddwl parhaus i ymestyn y sgwrs a’u medrau. Maent wir yn datblygu dealltwriaeth y plant ac yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r ymarferwyr yn canmol a chydnabod ymddygiad da bob tro. Er enghraifft, maent yn canmol plant am rannu, am fod yn garedig, am helpu eraill ac yn rhoi seren i blant am waith neu ymddygiad da.

Mae'r ymarferwyr yn mynd ati'n naturiol i hybu pob elfen o ddatblygiad y plant. Yn ogystal, mae gweithdrefnau effeithlon ar gael i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal, mae’r holl ymarfewryr yn dangos ymwybyddiaeth dda o’r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac yn paratoi’n briodol ar ei chyfer.

Mae pob ymarferydd yn dangos urddas a pharch tuag at y plant yn barhaus ac yn ystyrlon a gwyliadwrus wrth ddelio ag anghenion unigol y plant. Maent yn hollol frwdfrydig wrth ysbrydoli'r plant i ymateb yn egnïol i'r holl weithgareddau. Mae hyn yn dylanwadu'n bositif iawn ar agweddau'r plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau da sy'n cynnwys llais y plentyn, ymarferwyr a rhieni ac yn llwyddo i ennyn diddordeb pob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn ymateb yn brydlon i ddiddordebau a syniadau’r plant, er enghraifft trwy fynd â nhw i gaeau cyfagos i weld yr ŵyn bach yn dilyn trafodaeth am lun oen.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plentyn ac maent yn cynnig darpariaeth effeithiol sy’n herio bron bob un o’r plant yn llwyddiannus ac yn gadael iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain. Maent yn sicrhau rhyddid a llif rhydd i'r plant gael mynediad at eu dysgu a chwarae yn yr ardal allanol sydd yn galluogi'r plant i gael cyfnodau hir o chwarae di-dor. Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae’r plant, gan gynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu’n annibynnol. Er enghraifft, wrth rifo sawl gwaith i daro’r bwced i godi castell tywod.

Mae’r holl ymarferwyr yn rhyngweithio'n wych â'r plant. Maent yn eu holi’n gelfydd iawn sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau meddwl a chyfathrebu’r plant. Er enghraifft, wrth i blant sôn am drefniadau gwersylla eu teulu, mae'r ymarferwyr yn holi beth maen nhw wedi'i brynu ar gyfer gwersylla, lle byddan nhw'n cysgu, pryd byddan nhw'n mynd ac yna'n trafod teimladau am wersylla a chanmol y plant am rannu gwybodaeth yn dda. Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac yn modelu’r Gymraeg yn dda. Mae’r holl ymarferwyr yn dangos parch at waith y plant ac yn arddangos eu marciau yn yr oriel ac yn ysgrifennu nodiadau ar yr hyn mae'r plant yn ei ddisgrifio am y llun.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau creadigol a chorfforol y plant yn dda ac yn cynnig cyfleoedd ymarferol i'r plant ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Er enghraifft, trwy ychwanegu twnnel mawr a thrawstiau pren i’r ardal allanol er mwyn annog y plant i gropian a cherdded drostynt yn annibynnol. Maent hefyd wedi datblygu cyfleoedd pwrpasol i’r plant arbrofi ag adnoddau fel dŵr a thywod i ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth yn naturiol yn eu chwarae a’u dysgu. Er enghraifft, trwy ddyfrhau'r blodau, llysiau a ffrwythau er mwyn dysgu am sut i ofalu am blanhigion ac i ddatblygu iaith fathemategol fel llawn, hanner llawn a gwag.

Yn dilyn cyfnod pandemig COVID-19, mae’r ymarferwyr yn dechrau gwahodd ymwelwyr i ymweld â’r lleoliad i gyfoethogi’r cwricwlwm a phrofiadau dysgu a chwarae’r plant. Er enghraifft, trwy wahodd ymarferydd i ddysgu ioga i'r plant unwaith yr wythnos er mwyn cefnogi eu lles. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd da o’r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu a chwarae ac i gefnogi eu hymwybyddiaeth o’u cymuned. Er enghraifft, trwy brynu cynhwysion i wneud crempogau yn y siop leol ac i gyfarfod wŷn bach yng nghaeau'r fferm gyfagos.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda. Maent yn datblygu eu chwilfrydedd am fyd natur yn effeithiol drwy dyfu mefus, tatws a blodau yn yr ardd a sefydlu gwesty trychfilod. Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn rhoi clod i’r plant yn gyson wrth iddynt rannu adnoddau a bod yn garedig ag eraill. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau a diwrnodau dathlu fel diwrnod Santes Dwynwen a dydd Gŵyl Dewi a chanu a rhigymau Cymreig yn ddyddiol. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd i blant ddysgu am fywydau a chredoau pobl o ddiwylliannau eraill.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau arsylwi ac asesu effeithiol, sy’n galluogi’r ymarferwyr i ddefnyddio’r wybodaeth i gynllunio ystod dda o gyfleoedd dysgu a chwarae pwrpasol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth dda i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant drwy drafodaethau wyneb yn wyneb yn ogystal â defnyddio ap a chyfryngau cymdeithasol.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân iawn, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i’r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae’r lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn cael ei lanhau’n ddyddiol a rhwng y sesiwn bore a phrynhawn.

Mae’r arweinwyr yn diweddaru’r asesiadau risg pwrpasol a thrylwyr yn rheolaidd ac yn eu gweithredu’n effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i blant gymryd risgiau diogel yn eu dysgu a’u chwarae, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a’u datblygiad. Mae’r asesiadau risg tân yn gynhwysfawr. Cynhelir ymarfer tân yn rheolaidd iawn ac mae’r offer diffodd tân a’r offer trydanol yn cael eu gwirio’n flynyddol. O ganlyniad, mae’r plant yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar iawn ac maent yn dathlu cyflawniadau’r plant trwy osod eu gwaith creadigol yn yr oriel luniau ac wrth gofnodi campau gwych y plant ar y wal “Waw dyna wych”. Maent wedi sicrhau bod cynllun yr amgylchedd yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog i'r plant. Maent yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu yn darparu cyfleoedd symbylol i'r plant ddilyn eu trywydd eu hunain ac i ddefnyddi’'r adnodda’n annibynnol. Er enghraifft, yn yr ardal chwarae rôl, mae plant wrth eu bodd yn coginio amrywiaeth eang o fwydydd i'r doliau ac yn mynd ati i wisgo menig i dynnu'r bwyd poeth allan o'r popty rhag ofyn iddynt losgi eu bysedd.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu'r ardal tu allan ac mae'n cynnig cyfleoedd cyffrous i'r plant ddysgu a chwarae yn yr awyr iach gan ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol. Mae’r ddarpariaeth yn ddi-dor a’r drysau’n agored trwy’r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae yn ôl eu dymuniad. Mae'r rhan fwyaf o ddodrefn yn addas iawn at oed a cham ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, mae'r byrddau a'r cadeiriau adeg bwyd yn rhy uchel i'r plant ac nid oes man pwrpasol ar gyfer newid cewyn.

Mae’r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd uchel iawn, yn lân, wedi eu labelu ac yn hawdd eu cyrraedd, ac mae hyn yn galluogi’r plant i wneud dewisiadau chwarae annibynnol, doeth. Mae esgidiau a dillad addas ar gael ar gyfer tywydd anffafriol ac mae hynny'n caniatáu i blant chwarae tu allan, beth bynnag fo'r tywydd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o'r holl ymarferwyr a'r plant. Er ei bod yn gymharol newydd i’w swydd, mae ganddi weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer y lleoliad. Mae’n rhannu ei gweledigaeth gyda phartneriaid eraill yn llwyddiannus sy’n cyfrannu’n dda at greu ethos cadarnhaol o fewn y lleoliad.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn deall ei rôl yn dda. Maent yn cydweithio’n effeithiol ac yn ddiffwdan gyda’i gilydd er mwyn cynnig cyfleoedd buddiol i’r plant. Mae trafodaethau rheolaidd y tîm yn cael effaith bositif iawn ar wella’r ddarpariaeth a’r amgylchedd, er enghraifft trwy newid celfi a chyfarpar o amgylch yr ardal tu fewn nifer o weithiau i greu ardaloedd dysgu sy’n ennyn diddordeb y plant i ddysgu a chwarae. Mae’r trafodaethau hyn yn cyfrannu’n dda at weithdrefnau hunanwerthuso cryf y lleoliad, sy’n adnabod cryfderau a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae’r trefniadau hyn yn cynnwys llais y rheini a gofalwyr er mwyn cynnig syniadau ar sut i wella’r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn dilyn polisïau recriwtio diogel a chadarn ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio buddiol yn gyson ac yn cyfarfod yn fisol i drafod

amryw  weithdrefnau a pholisïau er budd y lleoliad. Mae'r polisïau’n cael eu diweddaru’n flynyddol.

Mae’r datganiad o ddiben yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth angenrheidiol i rieni.  Fodd bynnag nid yw bob amser yn gwbl gyson ag ychydig o’r polisïau.

Mae'r lleoliad wedi creu partneriaethau cryf iawn. Mae'r arweinydd yn gweithio’n dda iawn gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin er mwyn gwella’r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn addasu’r ddarpariaeth er mwyn cynllunio’n fwy cyflym i anghenion a diddordebau’r plant, sy’n gweddu’n well i egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, mae ganddynt berthynas gadarn â chwmnïau a busnesau lleol sydd wedi cefnogi’r lleoliad i ddatblygu’r ardal allanol drwy anrhegu tywod a thwnnel adeiladu. Mae gan y lleoliad berthynas gref â'r ysgol leol ac mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr wedi datblygu ardal allanol ychwanegol er budd y plant. Mae'r arweinwyr ac ymarferwyr wedi sefydlu perthynas waith dda gyda'r rhieni a gofalwyr ac maent yn rhannu gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plant.

Mae'r arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn dda ac yn manteisio ar grantiau a chodi arian ar gyfer datblygu'r ardal allanol newydd er mwyn creu darpariaeth hudolus i gefnogi medrau’r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2022